CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
11 Mawrth 2015 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts JP, R G Parry, S Parry, I Rowlands, C Ll Thomas

YMDDIHEURIADAU
Cyng A Michael, D Michael, N Highley, E Huws, Cyng D Rees (Cyngor Sir), Cyng N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP.

DATGAN DIDDORDEB - Cyng C Ll Thomas (rhodd y Rhwyd)

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 11 Chwefror 2015
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 11 Chwefror 2015, Cyng S Parry yn cynnig a Cyng I Rowlands yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r clerc yn disgwyl canlyniad y cais.
Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw
Cysgodfan Bws (yswiriant) - Mae'r clerc wedi derbyn enwau a chyfeiriadau perchenogion y cerbydau oddi DVLA ac yn symud ymlaen â'r hawliad yswiriant.
23 Bro Mynydd - llosgi rwber - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Twnnel Helyg - Bydd Mrs Walker yn dechrau adeiladu y twnnel 12 Mawrth.
Arwyddion ceffylau - Mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir.
Scottish Power - Mae'r Clerc wedi cael ymateb gan Scottish Power yn cadarnhau bod gwaith uwchraddio yn mynd ymlaen, hefyd yn cynnig am un o'u staff i ddod a siarad â'r Cyngor. Penderfyniwyd derbyn y cynnig. Hefyd, bydd y newidydd ger y Iorwerth Arms yn cael ei ddisodli yn dilyn cwynion am sŵn
Bocsys ailgylchu - Mae'r Cyngor Sir wedi ymateb - "Ni fydd y Cyngor yn codi tal am focsys ailgychu, dim ond y biniau du ar olwynion. Byddwn yn nodi'r difrod i'r bocsys ailgylchu a'r ffaith nad ydynt yn eu dychwelyd i'r un lleoliad gyda'n contractwr casglu gwastraff ac ailgylchu i wneud yn siwr na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol"
Cyfrif y Maes Chwarae - mewn llaw
Llosgi Gwastraff - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Gosod Tai Bryngwran - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Mynwent Llanbeulan - Maent y dweud bod cytundeb cynnal a chadw (bedd rhyfal) wedi ei sefydlu yn 2008 gyda unigolyn lleol

LLOFNOD (Cadeirydd) 8 Ebrill 2015

ARODDIAD Y CADEIRYDD - Mae'r cadeirydd wedi derbyn cwynion am lwch a deunyddiau yn chwythu o ffordd dros dro a adeiladwyd gan y cwmni sydd yn adeiladu tai newydd ger Bro Mynydd. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at y cwmni (Williams Homes, Bala) ac yn disgwyl ymateb.
Hefyd soniodd y Cadeirydd am cyflwr Capel Salem. Mae ffenestri wedi eu torri. Mae'r capel wedi cael ei werthu. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a Mr Alwyn Williams i gofyn am enw a cyfeiriad y perchennog newydd.
Mae'r preniau o amgylch y matiau rwber yn y maes chwarae yn angen eu newid. Awgrymodd Cyng Irfon Rowlands bod llwybr yn cael ei adeiladu o gwmpas y matiau. Bydd y Clerc yn trafod cyfarfod gyda Cymunedau yn Gyntaf i cael pris am y gwaith..

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Cynllunio
16C56D Cais llawn i codi annedd ar dir ger Hafan Deg, Bryngwran - dim sylwadau

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Dim

MATERION ARIANNOL
Penderfyniwyd talu - Costau y Clerc £56.64, Rhodd - y Rhwyd £100.00, J D Roberts (archwiliwr) £63.00

MATERION ERAILL
Adolygwyd y Rheolau Cyllid, Rheolau Sefydlog, Asesiad Risg, Rheolau Mewnol - dim newidiadau
Arwydd Bryngwran - Dywedodd Cyng Rowlands nad yw'r arwydd enw'r pentref (o gyfeiriad Bangor) yn weladwy oherwydd gofdyfiant. Bydd y clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
Diolchodd y Cadeirydd Cyng Rowlands am gwneud y gwaith ar giat yr ysgol.
Dywedodd y Clerc bydd agenda mis Ebrill ddim ar gael tan y 7fed oherwydd bydd y clerc ar ei wyliau

LLOFNOD (Cadeirydd) 8 Ebrill 2015